

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

# Swyddi Gwag

## Manylion y swydd wag

Sefydliad	<b>Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru</b>
Rôl	<b>Adolygydd Cymheiriaid Nyrs Gofrestredig</b>
Cyflog	<b>£250 y diwrnod, a threuliau teithio a chynhaliaeth</b>
Hyd	<b>Tair blynedd</b>

## Diben y swydd

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn rheoleiddio darparwyr Gofal Iechyd Annibynnol ac yn arolygu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau er mwyn amlygu'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae AGIC yn defnyddio Adolygwyr Cymheiriaid Nyrsys Cofrestredig ar draws amrywiaeth ei gwaith, sy'n cynnwys arolygu, adolygu ac ymchwilio i feysydd Gofal Iechyd Annibynnol a gwasanaethau'r GIG ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Arolygiadau Ysbytai Acíwt a Chymunedol y GIG
- Arolygiadau Gofal Iechyd Annibynnol
- Arolygiadau Unedau Iechyd Meddwl
- Arolygiadau Gwasanaethau Anableddau Dysgu
- Ymweliadau Cofrestru Gofal Iechyd Annibynnol
- Adolygiadau Arbennig a Thematig

Wrth gwblhau ein gwaith, rydym yn chwilio am Nyrsys Cofrestredig â phrofiad mewn Adrannau Achosion Brys a / neu Unedau Asesu Meddygol neu Lawfeddygol i fod yn adolygwyr cymheiriaid gyda ni.

Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes ymarfer clinigol ar hyn o bryd.

Bydd AGIC yn defnyddio gwybodaeth a sgiliau'r Adolygydd Cymheiriaid Nyrs Gofrestredig i sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar arfer a phrofiad cyfredol. Mae hyn yn ein helpu i amlygu arfer da, ac i atgyfnerthu a rhannu Safonau Gofal Iechyd o fewn y GIG a'r Sector Gofal Iechyd Annibynnol i roi tawelwch meddwl i'r cyhoedd a gwasanaeth gwell i gleifion.

## Tasgau Allweddol

- Cydweithio ag AGIC gyda chymorth a chyfarwyddyd staff AGIC.
- Teithio ledled Cymru i arolygu'r amgylchedd ffisegol, polisïau / gweithdrefnau, cyfarpar, ardystio, cofnodion cleifion a chofnodion eraill.
- Cyfweld â staff a chleifion.
- Rheoli amser yn effeithiol er mwyn sicrhau eich bod yn hollol barod ar gyfer yr ymweliad arolygu, ac i ddarllen gwybodaeth cyn arolygu ac adroddiadau arolygu blaenorol.
- Ymateb i unrhyw faterion sy'n peri pryder, fel y bo'n briodol, wrth drafod â Rheolwr Arolygu AGIC.
- Gwneud sylwadau ac argymhellion yn seiliedig ar eich barn glinigol a phroffesiynol eich hun, gan ystyried rhesymeg glinigol, buddiannau cleifion, ac unrhyw Reoliadau a Safonau perthnasol sydd ar waith.
- Cadw cofnod o'ch canfyddiadau yn ystod yr ymweliad drwy ddefnyddio'r offer arolygu a chymryd rhan yn y cyfarfod adborth ar ddiwedd yr arolygiad gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd.
- Adolygu a rhoi sylwadau ar gywirdeb adroddiadau arolygu cyn eu cyhoeddi.
- Cynnal ymweliadau arolygu dilynol byrrach â phwyslais penodol (yn ôl yr angen).
- Dangos parch a dealltwriaeth o amrywiaeth a dinasyddiaeth y staff / defnyddwyr y gwasanaeth.
- Cwblhau unrhyw raglenni cynefino a hyfforddiant y mae AGIC yn eu hystyried yn angenrheidiol.
- Gweithredu fel llysgennad i AGIC drwy hyrwyddo gwaith yr Arolygiaeth a rhannu arfer gorau.

## Meini Prawf sy'n Benodol i'r Swydd

- Wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) ar hyn o bryd ar unrhyw gangen o'r Gofrestr.
- Profiad sylweddol o ymarfer am o leiaf bum mlynedd, gyda phrofiad diweddar mewn Adran Achosion Brys a / neu Uned Asesu Meddygol / Uned Asesu Llawfeddygol.
- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.
- Profiad o lywodraethu clinigol a dealltwriaeth dda ohono, gan gynnwys gweithredu a monitro safonau clinigol a phroffesiynol yn effeithiol.
- Profiad o reoli risgiau'n effeithiol, gan gynnwys rhoi gwybod am ddigwyddiadau a delio â chwynion yn effeithiol.
- Sgiliau drafftio o ansawdd da.
- Ymrwymiad amlwg i gydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Sgiliau rhyngpersonol, cyfathrebu a gwrando rhagorol.
- Gweithredu mewn ffordd hynodbroffesiynol sy'n canolbwyntio ar y claf, gyda gwerthoedd cadarn o ran sicrhau gofal diogel, tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Sgiliau arsylwi, asesu a dadansoddi rhagorol.
- Gallu gweithio'n effeithiol yn annibynnol ac fel rhan o dîm.
- Defnyddio TG.

### Meini Prawf dymunol

- Yn gweithio ym maes ymarfer clinigol ar hyn o bryd.
- Profiad o weithio ym maes nyrsio mewn amrywiaeth o leoliadau; rhaid i hyn gynnwys Adran Achosion Brys a / neu Uned Asesu Meddygol / Uned Asesu Llawfeddygol.
- Tystiolaeth o weithio gyda grwpiau cleientiaid diamddiffyn.
- Yn meddu ar yr hyfforddiant diweddaraf ym maes amddiffyn oedolion a phlant; Deddf Iechyd Meddwl 1983; Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010; Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.
- Profiad blaenorol o arolygu a / neu ddefnyddio prosesau Sicrhau Ansawdd.
- Rhywfaint o ddealltwriaeth o amcanion a blaenoriaethau AGIC.

## Cyfleoedd Datblygu

Bydd adolygwyr cymheiriaid allanol yn cael profiad arolygu ac adolygu, ac yn gwella eu sgiliau dadansoddi, drafftio, gweithio fel tîm a chyfathrebu.

Mae gweithio gydag AGIC yn rhoi'r cyfle i Adolygwyr Cymheiriaid ddefnyddio arfer da yn eu meysydd gwaith eu hunain.

Bydd diwrnodau cynefino a/neu hyfforddi sy'n cael eu cynnig i adolygwyr cymheiriaid yn cael eu dynodi fel datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

## Yr Iaith Gymraeg

Mae AGIC yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a thyfu gweithlu dwyieithog, ac mae'n croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n dangos eu bod yn gallu gweithio yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Bydd Adolygwyr Cymheiriaid Nyrsys Cofrestredig yn gorfod cael gwiriad uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

## Gwybodaeth Ychwanegol

### Patrwm Gwaith

Dosberthir cytundeb fframwaith i Adolygwyr Cymheiriaid Nyrsys Cofrestredig er mwyn darparu gwasanaethau yn hyblyg, gan gynnwys trefniadau gweithio y tu allan i oriau. Nid oes yn rhaid i AGIC ddsbarthu unrhyw aseiniadau ac nid oes yn rhaid i Adolygwyr Cymheiriaid Nyrsys Cofrestredig dderbyn aseiniadau o dan y trefniant hwn. Bydd AGIC yn dosbarthu aseiniadau pan fydd gwasanaethau yn ofynnol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â thîm (Pobl) Gwasanaethau Corfforaethol AGIC yn [HIWInspections@gov.wales](mailto:HIWInspections@gov.wales) neu ffoniwch 0300 062 8163.

## Sut i wneud cais

Cwblhewch y Ffurflen Gais ar gyfer swydd Adolygydd Cymheiriaid Nyrs Gofrestredig sydd ar gael ar wefan AGIC <http://hiw.org.uk/getinvolved/workwithus/peerreviewer/?skip=1&lang=cy> a'i chyflwyno i [HIWInspections@gov.wales](mailto:HIWInspections@gov.wales) drwy e-bost.

Os oes angen y ffurflen gais arnoch mewn fformat neu iaith wahanol, cysylltwch â ni:

✉: [HIWinspections@gov.wales](mailto:HIWinspections@gov.wales)

☎: 0300 062 8163

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 28 Chwefror 2020**